# NEWYDDLEN ADY…

Newyddlen Misol Adran ADY Ysgol Gyfun Aberaeron….

RHIFYN 5 IONAWR 2023

## Penawdau'r Newyddlen Hon….



DPP staff yr ADran ADY yn rhoi ffocws ar ddatblgyu deialog a sgriptiau cadarnhaol er mwyn cefnogi ymddygiad, Lles a sgiliau dysgu'r disgyblion..



Cynllunio trawscwricwlaidd ar draws y 6 maes Dysgu a Phrofiad yn ffocysu ar y thema: "I'r Gofod a Thu hwnt…"



Datblygu cysylltiadau Cymunedol yn cyfoethogi darpariaeth yr Adran ADY...



Verity Day, ein harwres, yn achub yr Ysgol rhag ymosodiad haid o ddefaid coll!

**DPP Staff yr Adran ADY yn ffocysu ar ddatblygu sgriptiau a deialogau cadarnhaol a positif er mwyn cefnogi lles, ymddygiad a sgiliau dysgu disgyblion...gan ddechrau gyda iaith "Meddylfryd Twf"……** Y mis hwn, mae'r Adran ADY wedi bod yn ffocysu ar ddatblygu sgriptiau a deialogau "Meddylfryd Twf", er mwyn cefnogi Lles, Ymddygiad a Sgiliau Dysgu ein disgyblion. Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn ymglymu yn eu gwersi ac yn dangos ymrwymiad I ymdrechu o'u gorau ac yn gweld bod camgymeriadau yn gyfleoedd I ddysgu.Mawr obeithiwn, y byddwn yn gallu cefnogi disgyblion I newid meddyliau negyddol mewn I rai positif a chadarnhaol er sicrhau eu lles emsoiynol a fydd yn y pendraw yn cael effaith cadarnhaol ar y dysgu. (Gwelwch eisamplau isod…)









## Adnoddau Defnyddiol: www.mindsetworks.com ac Adnoddau gan Dr.Carol Dweck






## Ein Thema Dysgu yr hanner-Tymor hwn yw.."I'r Gofod a Thu Hwnt…"

Mae Disgyblion Canolfan Y Mor a Chanolfan Croeso Dosbarth CA 3 wedi bod yn astudio'r Gofod ar draws y 6 Maes Dysgu.Mae uchafbwyntiau'n cynnwys y canlynol. Defnyddio sgiliau creadigol I greu arddangosfa Cysawd Yr Haul 3D yn ogystal a gwrand o a gwerthuso cerddoriaeth "The Planets" gan Gustav Holst.Mae'r disgyblion hefyd wedi datblygu sgiliau Gwyddoniaeth a Thechnoleg i greu Modelau'r Cyswad trwy ddefnyddio deunyddiau sgrap.










## Mae'r Adran ADY yn parhau i ddatblygu partneriaethau Cymunedol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar draws yr oedrannau…..

Mae disgyblion Canolfan Croeso CA 4 a 5 wedi ymweld a Galeri Gwyn, Aberaeron er mwyn astudio Gwaith yr artist lleol-Jemima Roberts (on the wing). Mae ei gwaith yn seiliedig ar eiriau, datganiadau neu diarhebion am fywyd pob dydd. Edrychwn ymlaen I gydweithio gyda Jemima ar furlun allanol yng Ngardd yr Adran ADY.



Mae Disgyblion CA 3 wedi dechrau ymarfer eu sgiliau siarad a gwrando a rheoli arian allan yn y Gymuned, yn ystod eu hymweliad pythefnosol I Gaffi Ambassadors yn y dref. Mae pob disgybl yn dysgu darllen ac archebu byrfwyd a diod or fwydlen, ynghyd a chanfod y cyfanswm.mae hefyd wedi bod yn gyfle gwych I adolygu sgiliau diogelwch y Ffordd.

AMBASSADORS ABERAERON





# NEWYDDLEN ADY..

A monthly newsletter brought to you by the Aberaeon School ALN Department….

RHIFYN 5

IONAWR 2023

## Penawdau'r Newyddlen hon….



DPP staff yr ADran ADY yn rhoi ffocws ar ddatblgyu deialog a sgriptiau cadarnhaol er mwyn cefnogi ymddygiad, Lles a sgiliau dysgu'r disgyblion..



Cynllunio trawscwricwlaidd ar draws y 6 maes Dysgu a Profiad yn ffocysu ar y thema: "I'r Gofod a Thu hwnt…"



Datblygu cysylltiadau Cymunedol yn cyfoethogi darpariaeth yr Adran ADY...



Verity Day, ein harwres, yn achub yr Ysgol rhag ymosodiad haid o ddefaid coll!

## Cysylltiadau Cymunedol parhad……




Mae nifer o fewn yr Adran, wedi cymryd rhan yn "Arolwg Adar" Cenedlaethol yr RSPB fel rhan o wersi wythnosol "Gweithgareddau Gwyllt". Cafwyd cyfleoedd i fynd am dro ir goedwig leol ac o gwmpas tiroedd yr Ysgol er mwyn cynnal yr arolwg ac o ganlyniad, mae'r disgyblion wedi datblygu sgiliau trin a a thrafod data trwy greu siartiau rhicbren a bar.  Er mwyn denu fwy o adar at ardd yr Adran, cafodd ein disgyblion y cyfle I greu bwydydd adar amrywiol. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda swyddogion addysg yr RSPB I adeiladu bocsys adar.







## Verity Day Yn Achub Y Dydd!!

**Rhaid canmol ein harwres Verity Day, am feddwl yn gyflym a dangos menter i ddelio a defaid oedd wedi dianc or fferm cyfagos. Roedd Verity allan yn casglu sbwriel gyda Mr Duffit, pan ddaethant ar draws haid o ddefaid o gwmpas y Ganolfan Hamdden gyda rhai yn dechrau rhedeg tuag at y maes parcio. Llwyddodd Verity I'w gyrru nol I'r cae a trwsio'r glwyd mewn pryd. Da Iawn ti Verity!**

